Hoff Dric Cardiau **Johnny Ball**

1. Gwnewch yn siŵr fod gennych chi set gyflawn o 52 cerdyn heb y joceriaid.

2. Deliwch 9 cerdyn. Gofynnwch i ddisgybl ddewis cerdyn o'r 9 yma a'i ddangos i'r dosbarth ond gwnewch yn siŵr nad ydych chi'n ei weld.

3. Rhowch y cerdyn a ddewiswyd ar ben yr wyth cerdyn arall. Rhowch y naw cerdyn ar waelod y pac. Fel gallwch weld, mae'r cerdyn arbennig bellach yn safle 44.

4. Nawr, dechreuwch ddelio'r pac allan gan gyfrif i lawr o 10. Rydych chi'n aros i'r cardiau "siarad" â chi. Gyda disgyblion iau, byddai'n syniad da, o bosibl, i wneud tipyn o sioe o hyn.

5. Mae'r cardiau'n "siarad" os byddwch yn delio cymaint â'r rhif rydych chi newydd ei ddweud. Er enghraifft, os byddaf wedi cyfrif i lawr i saith ac yn delio'r rhif saith yr un pryd, yna mae'r cardiau wedi "siarad" ac rydych chi'n stopio yn y fan honno.



6. Yna, dechreuwch bentwr arall gan gyfrif i lawr o 10 eto. Os cyrhaeddwch chi un a'r cardiau heb siarad eto, yna capiwch y pentwr gyda'r cerdyn nesaf â'i wyneb i lawr. (Sy'n golygu bod gennych 11 cerdyn yn y pentwr.)

7. Ewch ymlaen fel hyn nes bod gennych bedwar pentwr. Mae'n debyg bydd gennych rai cardiau rhif sy'n wynebu i fyny.

Gofynnwch i'r dosbarth beth allech chi ei wneud gyda'r rhifau hyn. (Gobeithio ar ôl ychydig o anogaeth bwrpasol, bydd y dosbarth yn awgrymu eich bod yn adio'r rhifau hyn ac efallai hyd yn oed eich bod yn delio'r nifer yna o gardiau o weddill y pac.) Yn yr enghraifft, cyfanswm y cardiau a gafodd eu troi i fyny yw 17. Nawr, deliwch y 17 gerdyn a throwch yr 17eg gerdyn drosodd. Trwy ryw ryfedd wyrth, dyma'r cerdyn a ddewiswyd yn y dechrau.

8. **Ar yr adegau prin iawn pan nad yw'r cardiau yn siarad, trowch drosodd y cerdyn rydych chi'n capio'r pedwerydd pentwr ag ef a dyma'r cerdyn arbennig**

Esboniad: Mynnwch fod y disgyblion yn sylwi lle rhowch chi'r cerdyn arbennig. (Mae bob amser yn safle 44.) Mae'r tric yma i gyd yn ymwneud â ffordd arbennig o gyfrif i 44.

Dychmygwch nad oes unrhyw gerdyn yn siarad. Byddech chi'n darganfod bod gennych chi bedwar pentwr o un ar ddeg o gardiau a byddai cerdyn 44 yn capio'r pentwr olaf.

Fodd bynnag, os yw'r cardiau yn siarad, yna sylwch beth sy'n digwydd. Os yw'r cerdyn yn siarad ar saith, yna rydych chi wedi cyfrif pedwar cerdyn ac rydych chi saith cerdyn yn brin o un ar ddeg. Os yw'r cardiau'n siarad ar 5, yna rydych chi wedi cyfrif chwe cherdyn ac rydych chi bum cerdyn yn brin o un ar ddeg. Mae'r cardiau sydd wedi'u troi at i fyny yn dweud wrthych faint o'r cardiau sydd eu hangen arnoch i wneud pentyrrau o un ar ddeg. Felly, ar y cyfan, os ydych yn adio'r rhifau ar y cardiau sydd wedi'u troi i fyny, bydd yn dweud wrthych faint o gardiau sydd angen eu cyfri arnoch i wneud 44 o gardiau.